

TRYLOYWDER A CHYMUNED

Mae'r arddangosfa *Tryloywder a Chymuned* yn adrodd stori syfrdanol am gelwyddau a ddywedwyd wrth y cyhoedd a sefydliadau'n ceisio cuddio'r gwirionedd. Ar draws cyfnod o 100 mlynedd, mae'n cysylltu llond llaw yn unig o'r trychinebau a'r sgandalau lu sydd wedi esgor ar effaith ddinistriol. Dyma stori sy'n dangos pa mor anodd yw hi i bobl gyffredin gyrraedd y gwirionedd.

Ond mae *Tryloywder a Chymuned* yn cynnig gobaith hefyd. Gallai cyfraith newydd roi diwedd ar ddiwylliant yn llawn celwyddau a chelu gwirioneddau. Mae'r ymgyrchwyr yn galw'r ddeddf newydd hon yn 'Ddeddf Hillsborough', ac mae'n mynd trwy'r Senedd ar ffurf y 'Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)'. Mae Cyfraith Hillsborough yn rhoi dyletswyddau ar bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau ac awdurdodau cyhoeddus i weithredu mewn ffordd onest, dryloyw a didwyll. Hanfod hyn oll yw bod yn agored ac yn onest wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd.

Mae'r arddangosfa'n teithio o amgylch y DU. Mae'n eich annog chi, y cyhoedd, i gyfrannu at ymchwil sy'n ymchwilio i farn y cyhoedd ynglŷn â Chyfraith Hillsborough. Datblygwyd yr arddangosfa ar y cyd â chynrychiolwyr o blith y cymunedau sydd wedi dioddef yn sgil y digwyddiadau y sonnir amdanynt. Seilir y crynodebau ar ffeithiau a thystiolaeth sydd ar gael yn gyhoeddus – ffeithiau a thystiolaeth a wiriwyd yn annibynnol. Disgrifir pob un o'r digwyddiadau a'r effeithiau yng ngeiriau'r unigolion, y cymunedau a'r sefydliadau sy'n ymgyrchu'n ddiflino dros wirionedd a chyfiawnder.


“Nid ateb symbolaidd yw Cyfraith Hillsborough. Mae'n ateb ymarferol a fydd yn sicrhau dyletswydd gonestrwydd a mynediad cyfartal at gynrychiolaeth gyfreithiol.

Rydym ni, y bobl sy'n rhan o'r ymgyrchoedd hyn, wedi treulio blynyddoedd o'n hoes yn anrhydeddu ein hanwyliaid ac yn sicrhau, trwy gyflawni Cyfraith Hillsborough, na fydd neb ar ein hôl ni yn gorfod gwneud hynny. Dylai cyfiawnder ddigwydd yn ddiofyn, ac mae'r gyfraith hon yn gam enfawr tuag at gyflawni hynny.

Lobby Akinola, COVID-19 Teuluoedd mewn Profedigaeth dros Gyfiawnder, inquest.org

“Bydd Cyfraith Hillsborough yn unioni camweddau'r gorffennol, gan newid y cydbwysedd grym er mwyn sicrhau na all y wladwriaeth byth bythoedd guddio rhag y bobl y dylai eu gwasanaeth”

Syr Keir Starmer, Prif Weinidog



Arts and
Humanities
Research Council